# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Mai 2018

Amser: 14.00 - 16.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4745

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Alan Brace, Llywodraeth Cymru<br>Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Rhidian Hurle, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr holl Fyrddau Iechyd i ofyn a oeddent yn fodlon â'r ffigurau a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ynghylch costau rhedeg dwbl (PAC(5)-13-18 PTN6).

**2.1 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**2.2 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (24 Ebrill 2018)**

**2.3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (9 Mai 2018)**

## 3 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr y GIG, Alan Brace a Frances Duffy o Lywodraeth Cymru, ynghyd â Rhidian Hurle, Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru, fel rhan o'u hymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a'r materion allweddol

5.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

6.1 Cyflwynodd Mark Jeffs o Swyddfa Archwilio Cymru sesiwn friffio lafar i'r Aelodau ynghylch yr ymchwiliad sydd ar y gweill i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

## 7 Swyddfa Archwilio Cymru: rhaglen o astudiaethau gwerth am arian

7.1 Trafododd yr Archwilydd Cyffredinol gynnwys ei lythyr gyda'r Aelodau.